



monmouthshire  
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy  
Neuadd y Sir, Y Rhadyr,  
Brynbuga, Sir Fynwy  
NP15 1GA  
Monmouthshire County Council  
County Hall, Y Rhadyr, Usk,  
Monmouthshire  
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644 644  
Web/Gwefan: [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk)  
Ein Cyf/Our ref:  
Eich Cyf/Your ref:

## DERBYN I YSGOLION UWCHRADD – GWYBODAETH I RIENI MEDI 2024

Gofynnir i chi ddarllen y nodiadau hyn yn ofalus cyn llenwi eich ffurflen gais.

Fe'ch cynghorir yn gryf i ddarllen Llyfryn Dechrau Ysgol 2024/5 gan fod hyn yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl ar y broses gais. Mae copi o'r llyfryn ar gael drwy [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk) neu gellir ei bostio atoch os gwnewch gais.

**Pwysig:** Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn llenwi cais derbyn i ysgol i'ch plentyn ddechrau mewn ysgol uwchradd ym mis Medi 2024. **Ni** all eich plentyn fynychu ysgol uwchradd heb ddilyn y broses gais. Gallwch wneud cais ar-lein drwy Borth Dinasyddion Sir Fynwy drwy ddilyn y ddolen hon [Porth Dinasyddion – Mewngofnodi \(monmouthshire.gov.uk\)](http://www.monmouthshire.gov.uk). Gofynnir i chi sicrhau y caiff ei llenwi cyn y dyddiad cau o **13 Tachwedd 2023 am 5pm** er mwyn cynyddu'r posibilïadau i'ch plentyn gael lle yn yr ysgol dewis cyntaf.

### **Faint o ysgolion ddylwn i wneud cais ar eu cyfer?**

Gwahoddir rhieni i fynegi hyd at dri dewis (yn nhrefn blaenoriaeth) rhag ofn y gwrthodir y cais i'r ysgol dewis cyntaf.

Anogir rhieni/gwarcheidwaid i gynnwys mwy na 1 dewis ar eu ffurflen gais i gael ei ystyried. Pe gwrthodir lle yn yr ysgol dewis cyntaf, byddai methu rhoi mwy nag un dewis yn golygu y bydd yr awdurdod yn dyrannu lle yn yr ysgol nesaf agosach atoch lle mae lle. Pe byddech yn ein hysbysu am ddewisiadau eraill ar ôl i'r penderfyniad hwn gael ei wneud, gall yr holl leoedd sydd ar gael yn eich ysgol(ion) eraill fod wedi eu cymryd.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu cynllun dewis cyfartal. Mae hyn yn golygu y caiff pob un o'ch dewisiadau eu hystyried yn gyfartal ac y cânt flaenoriaeth ar sail meini prawf yr Awdurdod ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael. Pe gellid cynnig mwy nag un o'ch dewisiadau, cynigir y dewis uchaf a nodwyd gennych. Gofynnir i chi gynnwys unrhyw ddewis ar gyfer ysgol wirfoddol â gynorthwyir / annibynnol. (Bydd hefyd angen i chi wneud cais yn uniongyrchol i ysgol wirfoddol a gynorthwyir / annibynnol).

### **Pwy ddylai wneud y cais hwn?**

Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer derbyn i ysgol gael eu llenwi gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

**Pwysig:** Mae'n rhaid i bawb sydd â chyfrifoldeb rhiant gytuno i'r cais a gaiff ei gyflwyno. Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yng nghyswllt y cais, ni all yr Awdurdod Lleol symud ymlaen gyda'r cais nes y cafodd yr anghydfod ei ddatrys.

### **Beth os wyf eisïau gwneud cais am ysgol sydd y tu allan i Sir Fynwy?**

Os ydych yn breswlydd yn Sir Fynwy yna mae'n rhaid i chi ddal i wneud cais i Gyngor Sir Fynwy, hyd yn oed os yw eich ysgol dewis cyntaf wedi ei lleoli o fewn Sir Fynwy. Byddwch wedyn yn cysylltu gyda'r Awdurdod Lleol perthnasol ar eich rhan.

**Pwysig:** Yr unig eithriad i'r uchod yw os ydych yn gwneud cais am ysgol sydd wedi ei lleoli o fewn Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'n rhaid gwneud cais am ysgolion sydd wedi eu lleoli o fewn Cyngor Dinas Casnewydd yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Casnewydd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ganddynt er mwyn cael ei ystyried. ***Rydym yn eich cyngori'n gryf i lenwi a dychwelyd cais Sir Fynwy i'n cyngori am eich dewis ar gyfer ysgol yng Nghasnewydd, a chynnwys unrhyw ysgolion eraill (yn nhrefn dewis) yr hoffech i ni eu hystyried.***

Os dymunwch wneud cais am ysgol a gynorthwyr yn wirfoddol neu ysgol annibynnol, mae'n rhaid i chi hefyd wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgolion hynny.

### **Manylion cyfeiriad – beth os byddaf yn symud?**

Gofynnir i chi sicrhau mai cyfeiriad cartref parhaol eich plentyn yw'r cyfeiriad a nodir ar eich ffurflen gais. Dyma'r cyfeiriad y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei ddefnyddio i benderfynu ar gais eich plentyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal gwiriadau preswyliaeth trwyadl i ddilysu manylion y cyfeiriad a gyflwynwyd.

Bydd angen i rieni/gofalwyr sydd yn y broses o symud tŷ i hysbysu'r Awdurdod Lleol **adeg gwneud cais** am y bwriad i symud a chyflwyno tystiolaeth i ddilysu eu cyfeiriad newydd, er mwyn i'r cyfeiriad hwn gael ei ystyried. Tystiolaeth addas fyddai copi o gyfnewid contractau ar gyfer pryniadau) neu gytundeb tenantiaeth hirdymor (ar gyfer trefniadau rhentu). Mae'n **rhaid** cyflwyno'r cais a hysbysu am fwriad i newid cyfeiriad cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd er mwyn cael ei ystyried fel cais mewn-pryd. Byddai methiant i hysbysu'r awdurdod lleol am fwriad i symud i gyfeiriad newydd cyn y dyddiad cau a gyhoeddir yn arwain at i'r cais gael ei benderfynu fel un hwyr.

### **Pwysig**

Bydd angen i rieni/gofalwyr sydd yn y broses o symud ond na allant ddilysu'r symud cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd sicrhau y cyflwynir eu cais wedi ei lenwi cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, a bod y cais yn rhoi gwybodaeth am y bwriad i symud. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu gyda rhieni/gofalwyr am y bwriad i symud er mwyn cael cadarnhad y sicrhawyd preswyliaeth yn yr eiddo newydd. Fodd bynnag, bydd angen i rieni roi tystiolaeth i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau eu newid cyfeiriad **ddim hwyrach na 6 wythnos** cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ystyried ar gyfer dibenion dyrannu. Y dyddiad olaf y gellir cyflwyno'r dystiolaeth hon i'r awdurdod lleol ei ystyried yw **17 Ionawr 2024**.

***Gofynnir i chi roi peth amser i astudio Llyfryn Dechrau Ysgol 2024/25 i gael gwybodaeth fwy manwl ar y broses os ydych yn ystyried newid cyfeiriad.***

### **Beth mae'n ei olygu os caiff fy nghais ei benderfynu fel bod yn un hwyr?**

Caiff unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau neu geisiadau sy'n parhau'n anghyflawn ar y dyddiad cau eu trin dan y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr.

Bydd ceisiadau lle bu newid mewn amgylchiadau, sy'n effeithio ar statws y cais o fewn y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, yn arwain at i'r cais gael ei drin fel un hwyr os deuir â'r newidiadau hyn i sylw'r Awdurdod ar ôl y dyddiad cau.

Dylid nodi y caiff ceisiadau a benderfynir fel bod yn rhai hwyr gynyddu'r posibilrwydd o beidio cael lle yn eich ysgol(ion) dewis cyntaf. Mae hyn oherwydd y bydd pob cais a gyflwynir gyda'r dystiolaeth angenrheidiol cyn y dyddiad cau yn derbyn blaenoriaeth dros y rhai a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau.

### **Sut y caiff fy nghais ei benderfynu?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymroddedig i weithio gydag ysgolion a rhieni i gydymffurfio gyda'ch dewisiadau, lle bynnag sy'n bosibl. Fodd bynnag, mae achlysuron lle na allwn ddarparu ar gyfer dewisiadau rhieni.

Cewch eich cyngori'n gryf i gynnwys mwy na un dewis ar eich ffurflen gais, y gallwn wedyn ei ystyried pe byddech yn aflwyddiannus yn eich cais am eich ysgol dewis cyntaf. Caiff eich dewisiadau eu hystyried yn gyfartal yn unol â meini prawf yr Awdurdod Lleol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael a chynigir yr ysgol dewis uchaf pe gallai diwallu mwy nag un dewis – ni fyddwch dan anfantais mewn unrhyw ffordd am gynnwys mwy nag un dewis ar eich cais, ond gallech fod dan anfantais os na wnewch hynny.

Pe byddai'r Awdurdod Lleol yn derbyn mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael yn yr ysgol dewis cyntaf, caiff y meini prawf isod eu gweithredu i ddewis yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Plant sydd â Datganiad o anghenion addysgol arbennig (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)

1. Plant sy'n derbyn gofal neu sy'n flaenorol wedi derbyn gofal h.y. bydd plant sydd yng ngofal awdurdod lleol neu a fu'n flaenorol yng ngofal awdurdod lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 2-9 islaw.
2. Caiff plant gydag amgylchiadau meddygol eithriadol flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 3-9 islaw.
3. Caiff plant sy'n preswyllo o fewn y dalgylch ar gyfer yr ysgol dewis cyntaf sydd â brawd neu chwaer perthnasol flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 4-9 islaw.
4. Caiff plant sy'n preswyllo tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffafrir ond gyda brawd neu chwaer perthnasol fydd yn parhau i fynychu'r ysgol dewis cyntaf oherwydd iddynt fod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn eu hysgol dalgylch flaenoriaeth dros y rhai'n cyflawni pwyntiau 5-9 islaw.
5. Caiff plant sy'n preswyllo tu allan i'r dalgylch ond gyda sibliogiaid perthnasol eisoes wedi ymrestru yn yr ysgol dewis cyntaf erbyn mis Medi 2019 flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 5-9 islaw.
6. Caiff plant sy'n preswyllo tu mewn i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol dewis cyntaf flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 7-9 islaw.
7. Caiff plant sy'n preswyllo tu allan i ddalgylch yr ysgol dewis cyntaf, gyda brawd neu chwaer perthnasol (fydd yn mynychu'r dewis ysgol adeg derbyn) nad yw'n cyflawni pwyntiau meini prawf 4 a 5 uchod flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 8-9 islaw.
8. Caiff plant sydd hyn o bryd ar gofrestr ysgol gynradd a ddynodwyd yn ysgol fwydo ar gyfer yr ysgol uwchradd dewis cyntaf flaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwynt 9 islaw.
9. Ar ôl gweithredu'r categorïau uchod, neu pe byddai'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o fod â mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, caiff blaenoriaeth ei seilio ar agosatrwydd at yr ysgol dewis cyntaf, a fesurir yn defnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.

Gofynnir i chi neilltuo peth amser i astudio Llyfryn Dechrau Ysgol 2024/25 i gael gwybodaeth fwy manwl ar feini prawf yr Awdurdod Lleol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

### **Mae gan fy mhlentyn gyflwr meddygol – a fyddant yn derbyn blaenoriaeth am le ysgol?**

Bydd angen i rieni sy'n dymuno i amgylchiadau meddygol eu plentyn gael eu hystyried ar gyfer blaenoriaeth mewn lleoliad ysgol, yn unol â phwynt 2 o feini prawf yr Awdurdod uchod, gyflwyno tystiolaeth addas adeg gwneud cais er mwyn i'w hamgylchiadau gael eu hystyried gan yr Awdurdod yn ystod y broses ddyrannu ddechreuol. Gellir cymhwyso tystiolaeth addas fel adroddiad ymgynghorydd meddygol.

Ni fydd yn bosibl i'r Awdurdod ystyried unrhyw amgylchiadau meddygol pe derbynnid y dystiolaeth gefnogi ar ôl 1 Mawrth 2024 pan y gall yr holl leoedd sydd ar gael fod wedi eu dyrannu.

### **Mae gan fy mhlentyn frawd neu chwaer yn yr ysgol yn barod – a fydd yn derbyn lle yn awtomatig yn yr ysgol yma?**

Caiff brodyr a chwiorydd p'un ai'n llawn, hanner, llys neu faeth, eu hystyried yn berthnasol lle maent yn byw gyda'i gilydd yn yr un cyfeiriad a lle bydd plentyn hŷn yn dal i fod wedi cofrestru yn yr ysgol pan fyddai'r plentyn iau yn gymwys i fynychu.

Ni all yr Awdurdod Lleol warantu lle yn eich ysgol dewis cyntaf ar y sail fod ganddynt eisoes frawd neu chwaer yn yr ysgol dewis cyntaf. Fodd bynnag, mae brodyr a chwiorydd yn ffurfio rhan o'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael fel y dangosir uchod.

**Gofynnir i chi hefyd nodi y caiff sefyllfa brawd neu chwaer sy'n byw tu allan i'r dalgylch ei osod yn is yn y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael na brawd neu chwaer yn byw mewn dalgylch (gweler pwyntiau 3 a 5 o'r meini prawf uchod). Os ydych yn byw tu allan i'r dalgylch ac yn dal i gyflwyno cais, dylid nodi y gall eich plentyn ieuengaf fod mewn risg o beidio cael lle yn yr ysgol allan o'r dalgylch er fod ganddynt eisoes frawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol honno.**

### **A warentir lle i fy mhlentyn yn fy ysgol dalgylch?**

Er fod preswyllo o fewn y dalgylch ar gyfer eich ysgol dewis cyntaf yn rhan o'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, nid yw'n gwarantu lleoliad ar y sail hwn. Gallwch wirio eich ysgol dalgylch drwy edrych ar [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk)

### **Gwybodaeth Bwysig**

Mae'n bwysig deall pe dymunech wneud cais am ysgol heb fod yn eich dalgylch ac yn llwyddiannus, pe byddech wedyn yn dymuno gwneud cais am frawd neu chwaer arall i fynychu'r ysgol, bod y meini prawf ar gyfer brodyr neu chwiorydd allan o'r dalgylch yn is yn y meini prawf.

**Cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau y caiff ceisiadau ar-lein neu ffurflenni dewis eu derbyn erbyn y dyddiad cau o 13 Tachwedd 2023 (am 5pm). Os byddwch wedi llenwi ffurflen bapur, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn anfon y ffurflen mewn dull fel bod gennych dystiolaeth fod y Cyngor wedi'i derbyn, er enghraifft ddsbarthiad arbennig y Post Brenhinol neu fynd â hi gyda llaw i'n swyddfeydd. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ffurflenni a gaiff eu dychwelyd oherwydd nad oes stamp digonol arnynt.**